

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymchwiliad i Anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
DQ3 - Comisiynydd y Gymraeg**

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/02



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gareth Williams
Clerc
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Ebrill 2014

Annwyl Mr Williams

Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyfrannu sylwadau at yr ymchwiliad.

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith, ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r diwygiadau arfaethedig effeithio arnyn nhw. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe bai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad y sefydliad yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Mae sylwadau'r Comisiynydd yn ymwneud yn benodol â chwestiwn 4 y ddogfen, sef; "A ddylai'r Cyfrin Gyngor lunio Gorchymynion Anghymhwysu yn ddwyieithog?"

Nodir yn atodiad 1, memorandwm gan Lywodraeth Cymru: "Er mai offeryn statudol a fydd yn gymwys ledled y DU fydd y Gorchymyn Anghymhwysu, fel mater o egwyddor, credwn y dylai'r Gorchymyn gael ei wneud yn Gymraeg a Saesneg." Mae'r Comisiynydd yn cytuno gyda'r datganiad hyn.

O ganlyniad i'r Deddf Ieithoedd Swyddogol (Cymru) 2012 a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, gosodwyd sail statudol i weithredu'n ddwyieithog a diffiniwyd y safonau a'r gwasanaethau y gall Aelodau a'r cyhoedd eu disgwyl gan y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad. Yn unol â'r ymrwymadau hyn, a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sydd yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, dylid llunio'r Gorchymynion Anghymhwysu yn ddwyieithog.

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau ar yr ymchwiliad i anghymhwysu person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr eiddoch yn gywir

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg